# Polisi Camddefnyddio Sylweddau

## 1. Cyflwyniad

Mae strategaeth 10 mlynedd Llywodraeth Cymru, *Gweithio gyda'n Gilydd i Leihau Niwed*, yn gosod fframwaith ar gyfer ymdrin â chamddefnyddio sylweddau. Un o feysydd blaenoriaeth *Gweithio gyda'n Gilydd i Leihau Niwed* yw Atal Niwed a'i nod yw helpu plant, pobl ifanc ac oedolion i beidio â chamddefnyddio sylweddau drwy eu dysgu am y niwed y gall hynny ei achosi i'w hiechyd, eu teuluoedd a'r gymuned ehangach. Mae hyn yn cynnwys gohirio'r oedran y bydd plant a phobl ifanc yn dechrau yfed. Mae hefyd yn cynnwys cymryd camau i nodi'r rhai sydd mewn perygl o gamddefnyddio sylweddau a/neu'r rhai y mae angen cymorth arnynt neu y mae angen eu cyfeirio at wybodaeth neu gefnogaeth ychwanegol neu at weithgareddau y gallant ymddiddori ynddynt.

Rydym yn cymryd rhan yng nghynllun Ysgolion Iach Ceredigion ac yn cydnabod gwerth ymdrin â materion fel ysgol gyfan gan gynnwys y cwricwlwm, amgylchedd yr ysgol, ethos, arweinyddiaeth a chysylltiadau â'r gymuned.

## 2. Diffinio sylwedd

Dyma'r diffiniad safonol o gyffur neu sylwedd a ddefnyddir yn y polisi hwn – '*Sylwedd yw rhywbeth y mae pobl yn ei gymryd i newid y modd y maent yn teimlo, yn meddwl neu'n ymddwyn'* (y Cenhedloedd Unedig)

Mae'r polisi hwn yn ymwneud ag amrywiaeth o sylweddau gan gynnwys:

- tybaco a e-sigaréts
- alcohol,
- meddyginiaethau i'w prynu dros y cownter,
- meddyginiaethau a geir drwy bresgripsiwn yn unig fel steroidau anabolig a bensodiasepin
- sylweddau anghyfreithlon fel heroin, cocên ,ecstasi, amffeteminau, LSD, canabis, madarch hud
- sylweddau anweddol fel chwistrelli erosol, nwy bwtan, toddyddion a glud.
- sylweddau seicoweithredol newydd (y cyfeirir atynt yn aml fel "cyffuriau penfeddwol cyfreithlon)

Mae llawer o gyffuriau hefyd yn feddyginiaethau cyfreithlon. Mae polisi clir ynghylch gweinyddu meddyginiaeth. Os yw disgyblion yn cyflenwi cyffuriau a gafwyd drwy bresgripsiwn i eraill yn yr ysgol, maent yn torri'r gyfraith a bydd y polisi hwn, felly, yn cael ei roi ar waith.

**3. Nod**

Mae ysgolion yn chwarae rôl bwysig yn effeithio iechyd a lles plant a phobl ifanc mewn ffordd gadarnhaol a pharhaol. Drwy darparu addysg effeithiol ar gamddefnyddio sylweddau mae plant a pobl ifanc yn cael cyfleoedd dysgu sydd yn helpu iddynt ennill sgiliau, gwybodaeth a dealltwriaeth i wneud dewisiadau gwybodus am camddefnyddio sylweddau. Rydym yn anelu at fod yn sensitif ac yn parchu gwahaniaethau tra'n galluogi disgyblion i ddeall y peryglon sy'n gysylltiedig â defnyddio a chamddefnyddio sylweddau. Bydd y polisi hwn yn rhoi arweiniad clir ynghylch sut fydd Ysgol Gymraeg Aberystwyth yn ymateb i achosion o gamddefnyddio sylweddau, gan gydbwyso'r angen am gosb gyda chymorth. Mae ymgysylltu â'r gymuned yr ysgol yn allweddol i hyrwyddo neges gyson a gadarnhaol am faterion camddefnyddio sylweddau ac mae Ysgol Gymraeg Aberystwyth yn croesawu unrhyw sylwadau oddi wrth rieni a gofalwyr.

**4. Amcanion**

- Cymryd rhan yng nghynllun Ysgolion Iach Ceredigion a sicrhau bod Ysgolion Mynach, Pontrhydfendigaid a Syr John Rhys yn amgylchedd di-fwg. Mae hyn yn cynnwys e-sigaréts, esigs neu SDNE (systemau darparu nicotin electronig).

- Sicrhau bod contractwyr / sefydliadau / unigolion sy'n defnyddio, ymweld neu'n gweithio ar gyfleusterau'r ysgol yn cytuno i gadw at y Polisi Camddefnyddio Sylweddau, gan sicrhau bod y safle'n ddi-fwg

- Ni fydd yr ysgol yn caniatáu i neb ysmygu mewn unrhyw ran o'r adeilad, y fynedfa na'r tir unrhyw adeg, waeth beth yw eu statws neu eu rheswm dros fod yn yr ysgol. Mae'r polisi hwn yn cynnwys y rhai sy'n defnyddio'r adeilad y tu allan i oriau'r ysgol

- Cynyddu gwybodaeth a dealltwriaeth y disgyblion o gamddefnyddio sylweddau

- Herio agweddau a thynnu sylw at normau cymdeithasol yn ymwneud â chamddefnyddio sylweddau

- Helpu disgyblion ddatblygu sgiliau i'w helpu i ddelio â heriau o gamddefnyddio sylweddau drwy gydol eu bywydau

- Cyflwyno negeseuon cyson am gamddefnyddio sylweddau fel rhan o gwricwlwm yr ysgol ac yn allgyrsiol

- Rheoli digwyddiadau'n ymwneud â chamddefnyddio sylweddau gan roi sylw i'n cyfrifoldebau cyfreithiol a'r angen am gefnogaeth yn ogystal â sancsiwn.

- Bod yn gefn i staff sydd am roi'r gorau i ysmygu drwy sicrhau bod y wybodaeth berthnasol ar gael/ yn cael ei harddangos e.e. Llinell Gymorth Dim Smygu Cymru 0800 085 2219 / www.stopsmokingwales.com

- Codi ymwybyddiaeth ymhlith rhieni a rhannu gwybodaeth fel y bo'n briodol e.e. diwrnod Dim Smygu Cenedlaethol, Diwrnod Codi Ymwybyddiaeth o Alcohol

**5. Ymgynghori a Gweithredu**

Mae'r polisi hwn wedi cael ei ddatblygu mewn ymgynghoriad â chynrychiolwyr o'r grwpiau y bydd y polisi yn effeithio ar.

- Cyngor Ysgol
- Pwyllgor Lles (y plant)
- Staff sy'n gyfrifol am lles

Y Pennaeth a'r Corff Llywodraethu sydd, yn y pen draw, yn gyfrifol am roi'r Polisi Camddefnyddio Sylweddau ar waith ac am reoli digwyddiadau neu weithdrefnau disgyblu.

Bydd Llywodraethwyr yr ysgol yn adolygu'r polisi hwn yn unol â'r cylch adolygu polisïau. Gall Llywodraethwyr hefyd fod yn rhan o achosion disgyblu yn ôl yr angen.

Bydd y Corff Llywodraethu yn enwebu un llywodraethwr i fod yn gyfrifol am Gamddefnyddio Sylweddau.

Dylai'r polisi hwn gael ei ystyried ar y cyd gyda pholisïau a gweithdrefnau cysylltiedig, gan gynnwys:

- Addysg bersonol a chymdeithasol(ABCh)
- Rheoli ymddygiad
- Bwlio
- Cyfleoedd cyfartal
- Trefniadau ar gyfer rhoi gwybod am absenoldeb a chadw cofnodion cyfrinachol
- Gweithgareddau allgyrsiol, gan gynnwys teithiau preswyl
- Gweithdrefnau diogelu ac amddiffyn plant
- Cynhwysiant
- Iechyd a diogelwch
- Rheoli meddyginiaethau a gweinyddu

cyflwyno addysg camddefnyddio sylweddau / cwricwlwm

**6. Cyflwyno Addysg Gamddefnyddio Sylweddau (AGS)/ Y Cwricwlwm**

Dylai AGS effeithiol cychwyn yn gynnar a body n briodol i'w hoedran. Nod AGS effeithiol yw grymuso plant a phobl ifanc i wneud penderfyniadau cyfrifol a gwybodus am sylweddau sydd yn cael eu defnyddio a/neu eu camddefnyddio yn y gymdeithas. Mae Addysg ar gamddefnyddio sylweddau yn fwy effeithiol pan gaiff ei ategu gan ddull ysgol gyfan sy'n mabwysiadu ethos ysgol gadarnhaol a pholisi cefnogol. Yng Nghymru mae'r cwricwlwm yn darparu cyfleoedd clir i ddysgwyr ennill y sgiliau, gwybodaeth a dealltwriaeth sydd eu hangen iddynt i wneud dewisiadau gwybodus pan fyddant yn dod ar draws cyffuriau anghyfreithlon a sylweddau cyfreithlon.

Yn dilyn argymhellion Llywodraeth Cymru fydd y sail ar gyfer cynllunio AGS yn Ysgolion Mynach, Pontrhydfendigaid a Syr John Rhys yn cynnwys yr elfennau allweddol y:

*Fframwaith y Cyfnod Sylfaen i Dysgu Plant o 3 i 7 mlwydd oed yng Nghymru* (2015), Llywodraeth Cymru.

*Fframwaith addysg bersonol a chymdeithasol ar gyfer dysgwyr 7 i 19 oed yng Nghymru* (2008), Welsh Assembly Government. Mae'r rhain yn datblygu sgiliau, gwybodaeth a dealltwriaeth, agweddau a gwerthoedd.

Cyfleoedd eraill i AGS fydd yn cynnwys Gwyddoniaeth, Drama, Saesneg, Cymraeg. Yn Ysgolion Mynach, Pontrhydfendigaid a Syr John Rhys bydd disgyblion yn dysgu am AGS gan ddefnyddio dulliau a fydd yn cynnig:

- Gwybodaeth gywir a chyson a gyflwynir yn syml ac yn glir
- Deunyddiau darllen gwybodus a hawdd eu deall
- Sgyrsiau â chyfoedion ac oedolion sy'n arbenigwyr credadwy, yn ogystal ag athrawon
- Tasgau a fydd yn eu hysgogi ac y byddant yn eu mwynhau
- Heriau priodol mewn amgylchedd lle byddant yn teimlo'n ddigon diogel i gymryd rhan lawn ynddynt.

Mae'r Rhaglen Graidd Cyswllt Ysgolion Cymru Gyfan fel y darperir gan Heddlu Dyfed-Powys yn cefnogi'r danfoniad a bydd Drugaid yn cyflwyno sesiynau i grwpiau penodol os nodir angen.

**6.1 Defnydd o Siaradwyr allanol**

Fydd cyfraniadau gan siaradwyr allanol neu grwpiau theatr ddim yn dirprwyo ar ran rhaglen a arweinir gan athro efo adnoddau priodol. Fodd bynnag, efallai y byddant yn cyfoethogi rhaglen os:

- Mae'r mewnbwn yn rhan o raglen a gynlluniwyd ar y cyd a'r athro.
- Mae'r dull yn cyd-fynd efo rhaglen yr ysgol.
- Mae'r athro yn bresennol fel y gallant ddilyn lan ar y rhaglen yn ddiweddarach. Os mae'r athro yn bresennol, nid oes unrhyw ofyniad i ymwelwyr gael archwiliad gan yr heddlu.
- Mae gan y siaradwr brofiad ac arbenigedd mewn addysg gyffuriau a gweithio gyda phobl ifanc.
- Gall y siaradwr allanol cynnig rhywbeth penodol a defnyddiol nad gall yr athrawon (fel gwybodaeth am wasanaethau helpu y gall pobl ifanc eu defnyddio neu wybodaeth am y gyfraith a chanlyniadau torri'r gyfraith yn y maes hwn).
- Na ddylid cyn defnyddwyr sylweddau/alcoholigion cael eu defnyddio - mae'r dystiolaeth yn awgrymu'n gryf bod y bobl yma yn cael yr effaith o 'glamoreddio' camddefnyddio alcohol a chyffuriau ac mewn gwirionedd cael yr effaith o annog plant a phobl ifanc i gamddefnyddio

Fydd ystyriaeth ofalus i ddefnyddio asiantaethau allanol yn cael eu gwneud er mwyn sicrhau bod neges addysgol gadarnhaol yn cael ei roi yn hytrach nag arswyd sioc neu ofn cyflogedig er mwyn newid ymddygiad: er enghraifft, gan wahodd cŵn synhwyro cyffuriau heddlu i ddangos eu heffeithlonrwydd i ddod ar draws cyffuriau mewn bagiau neu bocedi - mae hyn yn neges ataliol ddefnyddiol ond bod disgyblion yn cael eu rhybuddio ymlaen llaw ac yn cael y cyfle i drafod. Gall

unrhyw ddefnydd arall o gwn cyffuriau mewn ysgolion arwain at doriad difrifol o ymddiriedaeth rhwng yr ysgol, disgyblion a theuluoedd.

### 6.2 Arweiniad ar Faterion Sensitif

Fel gyda phynciau sensitif eraill, ni ddylai athrawon gynnig cyfrinachedd i ddisgyblion, ac ni ddylid disgwyl trafod am eu profiadau neu ddiffyg profiadau personol eu hunain, oni bai eu bod yn teimlo'n gyfforddus yn gwneud hyn ac mae'n cyfrannu at ddysgu disgyblion neu i ymddiried rhwng disgyblion ac athro. **Nid dylai athrawon, dan unrhyw amgylchiadau, cyfaddef i wneud unrhyw beth anghyfreithlon ni waeth pa mor hir yn ôl.**

Bydd athrawon yn ateb cwestiynau disgyblion yn onest ac yn agored gan roi sylw priodol i'r aeddfedrwydd a dealltwriaeth y disgyblion dan sylw. Ni all gwybodaeth sydd yn codi o drafodaethau gael eu hystyried yn gyfrinachol gan y gallai rhaid i athrawon i weithredu i ddiogelu disgyblion rhag niwed trwy gynnwys neu gyfarwyddo oedolion eraill fel rhieni neu'r heddlu.

## 7. Hyfforddiant

Bydd yr Uwch Dîm Rheoli'n sicrhau bod digon o hyfforddiant ac adnoddau i'r holl staff a fydd cyflawni nodau ac amcanion y Polisi Camddefnyddio Sylweddau. Dylai hyfforddiant ar gyfer staff cael ei ddarparu i ddatblygu gwybodaeth, sgiliau a hyder. Bydd hyfforddiant i ysgolion yng Ngheredigion yn cael ei ddarparu gan Drugaid.

## 8. Y drefn gwyno

Rhaid cyfeirio unrhyw gwynion am Addysg Camddefnyddio Sylweddau at yr Uwch Dîm Rheoli, a fydd yn rhoi gwybod i'r Llywodraethwyr.

## 9. Cysylltu â'r cyfryngau

Ni fydd staff Ysgolion Mynach, Pontrhydfendigaid a Syr John Rhys yn rhoi gwybod i'r wasg a'r cyfryngau lleol am unrhyw ddigwyddiadau / materion yn ymwneud â chamddefnyddio sylweddau. Bydd y Pennaeth, mewn cydweithrediad â'r AALl a'r Llywodraethwyr yn ymdrin yn bersonol â'r cyfryngau, gan gyfeirio holl ymholiadau gan y cyfryngau at Swyddfa'r Wasg Cyngor Sir Ceredigion.

## 10. Trefniadau ar gyfer ymdrin â digwyddiadau

Bydd y mathau o ddigwyddiadau cysylltiedig â chamddefnyddio sylweddau yn amrywio. Mae Ysgolion Mynach, Pontrhydfendigaid a Syr John Rhys yn barod i bosibiliadau hyn ac mae ganddo ystod o ymatebion a ystyrir yn briodol.

Os yw staff yn gwybod am unrhyw drafferthion a/neu ddigwyddiadau'n ymwneud â disgyblion a chyffuriau, byddant yn dweud wrth aelod cyfrifol o staff, sydd wedi enwi yn adran pump o'r polisi yma. Bydd hwnnw neu honno wedyn yn rhoi gwybod i'r pennaeth. Bydd yr ymateb yn dibynnu ar

natur y digwyddiadau a lefel y perygl, gyda rhai sefyllfaoedd, sydd angen ymateb ar unwaith yn cael eu cyfeirio at bolisi  Reoli Argyfyngau Ysgolion, gweithdrefnau a chanllaw'.

**<u>Rhaid cymryd camau ar unwaith os oes perygl amlwg e.e.</u>:**

| Enghraifft | Camau i'w cymryd |
|---|---|
| *Mae oedolyn sy'n casglu plentyn neu berson ifanc i'w weld dan ddylanwad alcohol a/neu gyffuriau* | **Rhoi gweithdrefnau amddiffyn plant lleol ar waith a chysylltu â'r heddlu os yw'n ymddwyn yn fygythiol.** |
| *Mae plentyn a/neu berson ifanc/oedolyn i'w weld yn wael neu'n anniogel oherwydd iddo neu iddi gamddefnyddio sylweddau* | **Ystyried gofyn am gyngor meddygol, nodi'r ffeithiau perthnasol a rhoi gwybod i'r rhiant/gofalwr** |
| *Mae sylweddau'n cael eu cyflenwi ar y safle neu gerllaw* | **Cysylltu â'r Swyddogion Heddlu Cymunedol Ysgolion** |
| *Mae cyffuriau a reolir ar gael yn hawdd* | **Cysylltu â'r Swyddogion Heddlu Cymunedol Ysgolion** |
| *Mae sbwriel yn ymwneud â chamddefnyddio sylweddau, ac a all fod yn beryglus, ar y safle e.e. nodwyddau, chwistrelli* | **Trefnu i gael gwared â'r eitemau'n ddiogel yn unol â'r Polisi Iechyd a Diogelwch**<br><br>**Adolygu asesiad risg ysgol yn unol â safonau gofynnol o reolaeth**<br><br>**Chysylltu â'r heddlu os yw'n ymwneud â chamddefnyddio cyffuriau'n anghyfreithlon** |
| *Mae plentyn/person ifanc yn datgelu ei fod yn camddefnyddio cyffuriau neu fod ei rieni'n neu aelodau eraill o'r teulu'n gwneud hynny.* | **Cysylltu â'r gwasanaethau cymdeithasol neu'r gwasanaeth camddefnyddio sylweddau arbenigol i ofyn am gyngor ynghylch sut i ymateb.** |

**Gallai fod yn fwy priodol <u>oedi rhywfaint</u> e.e. i arsylwi, cyfweld, ymgynghori ag asiantaethau eraill, monitro, pan fydd:**

- Honiadau neu bryderon mwy cyffredinol am ddisgybl neu deulu penodol
- Datgeliadau anghyson/ y gellir eu gwrthbrofi
- Pryderon ond dim tystiolaeth o gamddefnyddio sylweddau neu ymddygiad niweidiol neu droseddol cysylltiedig (fel cyflenwi cyffuriau neu sylweddau niweidiol eraill)
- Pryderon ond dim tystiolaeth o berygl unionyrchol.

**<u>Sefydliadau eraill ddylai ymdrin â'r canlynol:</u>**

- Ymchwilio i weithgareddau troseddol, gan gynnwys chwilio drwy ddillad neu eiddo personol person. Mae'r Protocol Rhawd Ysgol yn darparu canllawiau ar gyfer gweithredu yn unol â pholisi'r heddlu.

- Ar wahân i gymorth cyntaf, dylid cysylltu â pherson meddygol priodol os oes argyfwng iechyd neu feddygol.
- Mater i'r gwasanaethau cymdeithasol yw asesu plant a theuluoedd sy'n agored i niwed a darparu cymorth a gwasanaethau iddynt.
- Rhaid defnyddio staff hyfforddedig i gyflwyno rhaglenni cwnsela a thrin cyffuriau gan wneud hynny drwy'r gwasanaethau cymdeithasol, iechyd neu arbenigol.

**11. Cysylltu â rhieni**

Caiff y rhieni wybod am unrhyw ddigwyddiad yn ymwneud â chyffuriau, oni bai:

- Bod pryderon yn ymwneud ag amddiffyn plant
- Byddai hynny'n ymyrryd ag ymchwiliad gan yr ysgol
- Byddai hynny'n ymyrryd ag ymchwiliad gan yr heddlu
- Gallai arwain at fwy o niwed i'r plentyn am reswm arall.

Bydd disgyblion yn cael eu gwahodd i droi allan o'u pocedi ond dim ond yr heddlu sydd efo'r pŵer i chwilio disgyblion. Bydd ymdrech rhesymol i gysylltu â rhieni i'w hysbysu y bydd chwilio yn cael ei gynnal.

**12. Cysylltu â'r heddlu**

Gall yr heddlu ymateb mewn tair ffordd mewn achosion o gamddefnyddio sylweddau:

1. Casglu a gweinyddu unrhyw sylweddau amheus
2. Ymchwilio mewn partneriaeth;
3. Ymchwiliad ffurfiol gan yr heddlu.

Ym MHOB achos o gamddefnyddio sylweddau, bydd yr ysgol yn cysylltu â'r Swyddog Heddlu Cymunedol ac nid yr heddlu brys. Os nad yw ar gael, ac os yw'r sefyllfa'n argyfyngus, mae'n bosibl y bydd yn rhaid ffonio 999.

**13. Y drefn ar gyfer ymdrin â disgybl yn dilyn digwyddiad**

Os yw staff yn gwybod am unrhyw anawsterau a/neu ddigwyddiadau'n ymwneud â disgyblion a sylweddau, bydd yn dweud wrth y pennaeth.

Bydd yr ymateb yn dibynnu ar natur a difrifoldeb yr achos. Weithiau bydd angen cymryd camau brys ond dro arall, bydd modd oedi rhywfaint i asesu gwybodaeth, gofyn am gyngor a chysylltu ag asiantaethau eraill. Ym mhob achos, iechyd a diogelwch y disgybl yw'r flaenoriaeth.

Gall rhai ymatebion gynnwys:

- cymorth arbenigol neu driniaeth a ddarparwyd gan asiantaethau allanol
- gwasanaethau cynghori mewn ysgolion
- dulliau adferol

• gwasanaethau cymorth ieuenctid
• contractau ymddygiad

Os yw disgybl mewn perygl oherwydd cyflwr meddyliol diffygiol, dylid cysylltu â'r rhieni a gofyn iddynt ddod i reoli'r disgybl. Os nad yw'r rhieni ar gael, bydd angen gofyn i'r cyswllt brys ddod i gynorthwyo. Fel arall, gellir ffonio'r gwasanaethau cymdeithasol a'r heddlu i ofyn am gyngor.

**13.1 Cofnodi digwyddiadau**

Yn Ysgolion Mynach, Pontrhydfendigaid a Syr John Rhys bydd y drefn ar gyfer cofnodi digwyddiadau'n cynnwys cofnod ffeithiol cywir o'r holl ddigwyddiadau'n ymwneud â chamddefnyddio sylweddau wrth ddefnyddio:

- Ffurflen Cofnodi Digwyddiadau a ddarperir yn y Canllawiau ar gyfer dogfen addysg camddefnyddio sylweddau 107/2013

Bydd aelod cyfrifol o'r staff/heddlu, gan gynnwys o leiaf un tyst, yn llofnodi'r cofnod o'r digwyddiad a'r cyfweliad ac yn nodi'r dyddiad. Bydd cofnodion yn cael ei gwblhau cyn gynted â phosibl ar ôl y digwyddiad. Bydd y corff llywodraethol yn monitro digwyddiadau camddefnyddio sylweddau.

**13.2 Y drefn ar gyfer ymdrin â digwyddiadau'r tu allan i'r ysgol**

Ni fydd yr ysgol yn ymdrin mewn unrhyw fodd â digwyddiadau'r tu allan i oriau'r ysgol neu oddi ar y safle ac eithrio:

- Tripiau ac ymweliadau ysgol, pan fydd yr un rheolau a gweithdrefnau'n gymwys cyhyd ag y bo hynny'n rhesymol ac yn ymarferol
- Trosglwyddo gwybodaeth i asiantaethau perthnasol pan fydd diogelwch neu les disgybl dan fygythiad
- Cynorthwyo'r heddlu i atal y tir o amgylch yr ysgol rhag cael ei ddefnyddio i brynu a gwerthu cyffuriau.
- I gael gwared ar y malurion, nodwyddau, offer miniog yn ddiogel o safle yn unol â hynny.

**14. Diogelu a chyfrinachedd**

Ni all athrawon addo cadw gwybodaeth yn gyfrinachol. Bydd y disgyblion yn deall ffiniau cyfrinachedd. Mae'n bosibl y bydd yn rhaid galw ar Weithdrefnau Amddiffyn Plant os yw diogelwch neu les y disgybl (neu ddisgyblion eraill) dan fygythiad. Os yw disgybl yn datgelu gwybodaeth sensitif, nad yw'n hysbys yn gyffredinol, ac wedi gofyn i'r wybodaeth gael ei thrin yn gyfrinachol, caiff y mater ei drafod gydag uwch aelod o staff. Mae'n bosibl na ellir cadw'r wybodaeth yn gyfrinachol:

- os yw'r achos yn ymwneud â diogelu plant neu bobl ifanc
- os yw bywyd mewn perygl neu os oes perygl difrifol y caiff eraill eu niweidio
- os datgelir troseddau o dan Ddeddf Camddefnyddio Cyffuriau 1971

Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y disgybl yn cytuno â'r modd y mae'r ysgol yn bwriadu defnyddio gwybodaeth sensitif.

**15. Y drefn ar gyfer ymdrin â digwyddiadau'n ymwneud â staff**

Rhaid defnyddio Polisi a Threfn Disgyblu Cyflogaeth a Polisi Cyffuriau ac Alcohol yn y gweithle Cyngor Sir Ceredigion mewn achosion yn ymwneud â staff a chamddefnyddio sylweddau. Mae diogelu plant a phobl ifanc o fwy o frys nag gweithdrefnau disgyblu staff.

**16. Y drefn ar gyfer ymdrin ag oedolion (nid staff)**

Ni fydd Ysgolion Mynach, Pontrhydfendigaid a Syr John Rhys yn rhyddhau disgyblion i ofal oedolion eraill os oes posibilrwydd y caiff y disgybl hwnnw ei niweidio. Os oes tystiolaeth bod rhieni neu ofalwyr yn cyrraedd yr ysgol i gasglu disgyblion dan ddylanwad alcohol neu gyffuriau, cysylltir â'r Gwasanaethau Cymdeithasol neu'r Heddlu yn unol â'r Polisi Amddiffyn Plant.

Os ymddengys bod/y bu rhiant neu ymwelydd dan ddylanwad sylweddau ar safle'r ysgol gofynnir iddynt adael ar unwaith. Bydd staff yr ysgol yn sicrhau bod y rhiant/ymwelydd yn ddiogel, drwy ei oruchwylio os byd angen, ar yr amod y gellir gwneud hyn heb roi gweithwyr neu bobl eraill mewn perygl o niwed corfforol. Os yw'r rhiant/ymwelydd wedi cymryd sylweddau anghyfreithlon, bydd staff yn cysylltu â'r Heddlu.

**17. Gwaredu sbwriel ar dir yr ysgol**

**Nodwyddau a chwistrellau**
Mae dod ar draws nodwyddau neu chwistrellau yn cyflwyno goblygiadau iechyd a diogelwch ac os maent yn cael eu sylfaenu ar dir yr ysgol bydd y protocol canlynol yn cael eu dilyn:

- Rhaid dweud wrth y pennaeth
- Bydd y petheuach yn cael ei roi mewn blwch offer miniog, gan ddefnyddio dillad amddiffynnol a chyfeirir at yn y ddogfen gyfarwyddyd 'trin a gwaredu nodwyddau diogel' ysgol ac yn unol ag asesiad risg yr ysgol (bydd hyn yn cynnwys menig a phliciwr neu gweithredai arall er mwyn osgoi trin clwyf/twll uniongyrchol).
- Cysylltwch efo'r heddlu lleol i wagio'r blwch (Mae cysylltiadau gwaredu i'w gael yn y ddogfen ganllaw ysgol uchod)
- Rhoi gwybod i'r Swyddog Cymuned Ysgol yr Heddlu
- Bydd angen llenwi ffurflen cofnodi digwyddiad a chael llofnod y tystion
- Addysgu'r disgyblion

**Sylweddau neu betheuach cysylltiedig â sylweddau**

Pan fo sylwedd yr amheuir ei ddarganfod neu ei adfer o fewn cyffiniau'r ysgol, mae'r polisi Troseddau Rhawd Heddlu Ysgol yn argymell y canlynol:

- Rhaid dweud wrth y pennaeth
- Os oes rhywun mewn perygl posibl neu'n debygol o gael ei niweidio, ffoniwch 999

- Cysylltwch â Swyddog Cymuned Ysgol yr Heddlu neu dîm plismona cymdogaeth i gael gwared â'r eitemau ac i gael cyngor
- Os nad yw Swyddog Cymuned Ysgol yr Heddlu ar gael - dylech gysylltu â'r orsaf heddlu agosaf a gofyn am rif digwyddiad
- Gofalwch fod tyst i'r broses o gasglu'r eitemau mewn cydweithrediad ag aelod arall o staff
- Cadwch yr eitemau mewn lleoliad addas nes daw'r heddlu
- Bydd angen llenwi ffurflen cofnodi digwyddiad a chael llofnod y tystion
- Ni ddylai staff geisio dadansoddi na blasu unrhyw sylweddau amheus
- Rhaid bod yn ofalus wrth gael gwared caniau, poteli a gwydr sydd wedi torri
- Addysgu'r disgyblion

**17.1 Sylweddau anweddol**

Mae Ysgolion Mynach, Pontrhydfendigaid a Syr John Rhys yn gyfrifol am y defnydd a reolir a diogelwch o Sylweddau anweddol fel tanwyddau aerosol, bwtan, toddyddion a glud lle maent wedi'u hawdurdodi i'w defnyddio at ddibenion y cwricwlwm, yn unol ag Asesiadau Risg CLEAPSS perthnasol.

**18. <u>Cydraddoldeb</u>**

Caiff yr holl ddisgyblion, eu rhieni a'u gwarcheidwaid, gwirfoddolwyr, staff a llywodraethwyr yr ysgol eu gwerthfawrogi a chânt eu trin ag urddas a pharch. Ni fydd yr ysgol yn goddef unrhyw fath o wahaniaethu, aflonyddu nac erledigaeth.

Byddwn yn  gweithio gyda'r gymuned ysgol gyfan i sicrhau bod eich ymrwymiad i gydraddoldeb a thegwch yn cael ei rannu a byddwn yn cymryd camau i sicrhau bod ein hysgol yn hygyrch, yn groesawgar ac yn gynhwysol.

**19. <u>Monitro a gwerthuso</u>**

- Bydd cyfleoedd ar gael i'r disgyblion gymryd rhan a gwerthuso'r hyn y maent wedi'i ddysgu yn ôl eu hoed, eu hanghenion a'u gallu

- Gwahoddir y rhieni'n rheolaidd i roi sylwadau a syniadau ar sut i wella'r polisi a hynny ar lafar a drwy gyfrwng holiaduron

- Cyngor yr ysgol yn gyfrifol am bolisi plant

- Caiff cynnydd ei fonitro'n achlysurol gan yr Uwch Dîm Rheoli a'r llywodraethwyr: caiff problemau penodol eu trafod mewn cyfarfodydd staff fel ag y bo'n briodol.

**20. Cyfeiriwyd at**

Fframwaith ar gyfer Dysgu Plant 3 – 7 oed yng Nghymru (2008), Llywodraeth Cynulliad Cymru

Arweiniad ar Addysg Camddefnyddio Sylweddau (2013) dogfen gyfarwyddyd rhif: 107/2013, Llywodraeth Cymru

Fframwaith addysg bersonol a chymdeithasol ar gyfer dysgwyr 7 i 19 oed yng Nghymru (2008), Llywodraeth Cynulliad Cymru

Cynllun gweithredu rheoli tybaco, (2012), Llywodraeth Cymru

Gweithio gyda'n Gilydd i Leihau Niwed: Strategaeth Camddefnyddio Sylweddau i Gymru (2008 – 2018), Llywodraeth Cynulliad Cymru

21. **Gwefannau defnyddiol**

www.schoolbeat.org

www.dan247.org.uk

www.talktofrank.com

www.drugscope.org.uk

www.drinkaware.co.uk

www.siedsinfo.co.uk